# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 23
MAI 2009

**Wythnos Cymorth Cristnogol :10fed – 16eg Mai 2009**

Eleni fe fydd ymgyrch flynyddol Cymorth Cristnogol yn rhoi sylw arbennig i Weriniaeth Ddemocrataidd y Congo lle mae bywyd yn anodd iawn i drigolion y wlad. Y mae'r ffin rhwng byw a marw yn denau iawn am fod ôl-effeithiau deng mlynedd o ryfel i'w gweld yn amlwg, gyda thlodi, diffyg maeth a chlefydau yn dal i ladd miloedd bob wythnos. Drwy gyfrwng y deunydd a baratowyd gan Gymorth Cristnogol cawn gyfarfod â merch ifanc ddeunaw oed o'r enw Nadia Kabula. Bu farw ei thad yn sydyn rhyw ddwy flynedd a hanner yn ôl ac o ganlyniad i'w farwolaeth nid oedd arian ar gael i dalu am addysg iddi. Felly bu'n rhaid iddi adael yr ysgol i ofalu am eu brodyr a'u chwiorydd tra bod ei mam, Brigitte, yn mynd allan i weithio i ennill arian. Er bod Brigitte yn gweithio oriau hir, prin yw'r arian y mae'n ennill. Mewn sefyllfaoedd tebyg y mae nifer o blant a phobl ifainc yn cael eu gorfodi i fyw ar y strydoedd, lle gall treisio a phuteinio ddifa eu dyfodol yn ogystal â'u diniweidrwydd ifanc. Ond y mae un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, Humanité Nouvelle, yn estyn cymorth i'r bobl ifainc hyn mewn amryw ffyrdd. Yn achos Nadia, mae wedi cwblhau cwrs teilwra sydd wedi rhoi addysg iddi am fywyd. Mae teuluoedd fel teulu Nadia yn aml yn clywed am waith mudiadau fel Humanité Nouvelle, sydd yn helpu ailadeiladu bywydau o fewn rhai o gymunedau mwyaf bregus y Congo, drwy eu heglwys leol. Nid yn unig y mae'r cwrs teilwra wedi helpu Nadia i ddatblygu sgiliau, ond bellach y mae'n medru cynnal ei hun a chynorthwyo'r teulu.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni fe fydd sawl un yn mynd i gasglu arian o ddrws i ddrws fel yn Aberystwyth a Phenrhyn-coch. Gyda'r holl alw am gymorth ariannol yn ein byd heddiw ac achosion lleol yn cystadlu'n daer am ein ceiniogau prin, a hyn oll yng nghyd-destun y "credit crunch", hawdd yw digalonni wrth i bobl wrthod â chyfrannu a chefnogi ond bydded inni gofio geiriau Brigitte, mam Nadia, a fydd yn siwr o'n hysbrydoli i wneud ein gorau glas eleni eto i godi cymaint o arian ag y medrwn tuag at Gymorth Gristnogol. Meddai Brigitte:

"Ni ddylech chi wirfoddolion roi'r gorau iddi pan gewch eich troi i ffwrdd o dai pobl. Dylech gario ymlaen oherwydd heb yr arian a gesglir gennych byddai'n anodd iawn i blant o gefndiroedd tlawd dderbyn hyfforddiant a chael gwaith i sicrhau eu dyfodol."

"O Dduw cariadlon,
gorchmynnaist i ni garu'r tlawd,
i ystyried y rhai hynny sydd ganddynt leiaf
a chysuro'r rheini sy'n dioddef fwyaf.
datguddia i ni ym mha ffyrdd yr wyt ti'n dymuno inni weithredu
er mwyn dwyn i'r ddaear hon gipolwg ar dy deyrnas."

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

## CALENDR MIS MAI 2009

| Cyhoeddwr y Mis | Ceris Gruffudd Organydd y Mis Mair Evans | |
|---|---|---|
| 3 Mai<br>2.30 | <br>Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun<br>Doreen & Ella |
| 10 Mai<br>10.00 a 5.30 | Cymanfa Ganu: Bethel, Aberystwyth. Oedfa o Fawl yn y bore i ddathlu'r Atgyfodiad yng nghwmni Andy Hughes a'i Fand a Sioe Bybedau. Ceir cyflwyniadau gan yr Ysgolion Sul.<br>Cymanfa Ganu Draddodiadol yn yr Hwyr o dan Arweiniad Mrs Carol Davies. (Arweinydd Côr Meibion Aberystwyth)<br>Dewch i Gefnogi a Mwynhau! | |
| 17 Mai<br>10.30<br><br>2.30 | <br>Clwb Sul<br><br>Oedfa Bregethu: Gweinidog | <br><br>Gofal y Te<br>Dafydd ac Ellen |
| 24 Mai 10.30 | Oedfa Bregethu Y Parchedig Raymond Jones, Tal-y-bont | |
| 31 Mai 10.30 | Oedfa Bregethu | |
| 7 Mehefin<br>12.00<br><br><br><br>2.30 | <br>Cynhelir Cinio Canol Dydd Tri Chwrs **ym Methel** i godi arian at yr eglwys yn Lesotho. Rhodri Edwards fydd yn paratoi'r pryd. Pris Tocyn : £10. Plant : £5<br>Croeso cynnes i bawb.<br><br>Oedfa Gymun: Gweinidog | <br><br><br><br><br>Bwrdd y Cymun<br>Mona a Glenys T |
| 14 Mehefin<br>10.30 | <br>Oedfa Deuluol : Gweinidog | |
| 21 Mehefin<br>2.30yp | Oedfa ar y Cyd: Bethel a Horeb yn Horeb.<br>Edrychwn ymlaen at groesawu Delyth Davies, Cyd-lynydd y BMS yng Nghymru a chlywed am y datblygiadau diweddaraf yn y genhedaeth Gristnogol dramor. | <br>Gofal y Te<br>Angen Trefnu |
| 28 Mehefin<br>10.30<br>10.45yb | <br>Clwb Sul Bach<br>Oedfa ar y Cyd â'r Eglwys yn Eglwys Sant Ioan.<br>Edrychwn ymlaen at groesawu y Bon. Wynford Ellis Owen a ddaw i sôn am ei waith gyda'r Cyngor Alcohol a Chyffuriau yng Nghymru. Dewch i gefnogi! | |

**I'CH DYDDIADUR**

**3 Mai :** Cymanfa Ganu **:** Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch yng nghwmni Côr Cantre'r Gwaelod. Rhaglen : £5. 7.30yh.
**6 Mai :** Cyfarfodydd Blynyddol y Senana : Bethesda, Ponthenri 2yp a 5.30yh.
**6 Mai :** Rihyrsal y Gymanfa : Bethel, Aberystwyth am 7yh.
**7 Mai :** Darlith Syr D O Evans : Darwin and the Divine : Evolutionary Thought and Religious Belief : Yr Athro Alistair McGrath. Yr Hen Goleg, Aberystwyth.
**9 Mai :** Neuadd Bentre, Ysbyty Ystwyth: Cyfarfod Dwyieithog i Gofio Diwygiad 1859 a Dafydd Morgan. Anerchiad gan Y Parchedig Ddr. Eifion Evans am 2yp.
**10-16 Mai** : Wythnos Cymorth Cristnogol.
**11 Mai** : Cinio Cymorth Cristnogol : Seion, Stryd y Popty : Oedfa Fer am 11.45. Cinio : 12.00yp-1.30yp.
**13 Mai** : Cinio Cymunedol yn Eglwys Sant Ioan.
**15 Mai** : Bore Coffi er budd Cymorth Cristnogol : Bethel, Stryd y Popty : 10.30-12.30.
**16 Mai** : Cymdeithas Emynau Cymru : Ysgol Undydd : Festri Bethel : 10.30-4.30.
**18- 23 Mai :** Siop Cymorth Cristnogol : Festri Seion (Dydd Llun: 1.30-5.00; Dydd Mawrth-Dydd Sadwrn : 9.30-5.00).
**18- 20 Mai :** Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion : Ebenezer, Llandeilo. Byddaf yn mynychu'r cyfarfodydd, croeso cynnes os hoffech ymuno â mi.
**21 Mai : Os Mêts :** Manylion i ddilyn
**27 Mai** : Cinio Cymunedol yn Eglwys Sant Ioan.
**13 Mehefin** : Cymdeithas y Penrhyn : Taith i Sir Fôn.
**22-24 Mehefin** : Undeb Bedyddwyr Cymru, Penuel, Bangor.
**5 Gorffennaf 2009** : Byddwn yn cynnal oedfa yng nghapel Salem, Llanbedr lle peintiwyd y llun enwog "Salem" gan Curnow Vosper. Cawn hanes y llun a'r capel yn ystod ein hymweliad.

**LLOFFION**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Henry, Glenys a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer-yng-nghyfraith.
Dymuniadau gorau i Connie a Cerys H a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.